**Pwyllgor Trwyddedu CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022 am 5.00pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu oedd yn bresennol:**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd A O Rogers |
| Y Cynghorydd J Turner | Y Cynghorydd T Williams |

**Swyddogion yn bresennol:**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol

**19 Ymddiheuriadau**

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Powell ac S Powderhill.

**20 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**21 Deddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**22 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2022 yn rhai cywir.

**23** **Trafod Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 17.10.22 – 21.11.22**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 17 Hydref 2022 a 21 Tachwedd 2022 i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**24** **Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**25** **Trafod y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu Gofrestru:**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem tan y cyfarfod nesaf oherwydd nad oedd yr Ymgeiswyr yn bresennol.

**26** **Crynodeb Gorfodi (Gan gynnwys Data Apeliadau/Erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 17.10.22 – 21.11.22**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 17 Hydref 2021 a 21 Tachwedd 2022.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**27** **Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 17.10.22 – 21.11.22**

Rhannodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad â'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 17 Hydref 2022 a 21 Tachwedd 2022.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.17pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX**
**CADEIRYDD.**